| | |
|---|---|
| **Dyddiad creu:** | 06/04/2021 |
| **Dyddiad cyhoeddi:** | 22/04/2021 |
| **Rhif y fersiwn:** | 1.00 |

| | |
|---|---|
| **Maes Gwasanaeth:** | Cartrefi Caerffili |
| **Maes Gwaith:** | Strategaeth a Datblygu |
| **Manylion cyswllt:** | 01443 811380<br>jennim1@caerffili.gov.uk |
| **Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Strategaeth Tai Lleol 2021-2026 - Drafft |
| **Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn esbonio sut y bydd y Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu wrth ymateb i gyfres o gyfleoedd ymgysylltu sy'n ymwneud â'r Strategaeth Tai Lleol 2021-2026 - Drafft. |

# Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth

## Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

### Diben y gwaith prosesu

Bydd Strategaeth Tai Lleol 2021-2026 yn darparu fframwaith ar gyfer darparu tai a gwasanaethau cysylltiedig ledled y Fwrdeistref Sirol. Mae ymgynghori ar ddatblygiad y strategaeth yn cael ei ystyried yn arfer da. Bydd yr adborth a geir o ymgynghori yn helpu'r Cyngor i nodi unrhyw faterion y mae angen eu hystyried ymhellach a llunio cyfeiriad strategol cyffredinol y strategaeth.

Y prif ddull ymgysylltu fydd drwy arolygon ar-lein ond, yn amodol ar lacio cyfyngiadau COVID-19, gall hefyd gynnwys dulliau eraill fel grwpiau ffocws.

Bydd yr wybodaeth a gesglir drwy'r broses ymgysylltu yn cael ei chasglu mewn adroddiadau cryno. Bydd yr wybodaeth yn cael ei dadansoddi a'i chyflwyno yn y fath fodd fel na fydd yn caniatáu adnabod yn bersonol unigolion sy'n darparu gwybodaeth.

Fel rhan o'r arolwg, bydd y Cyngor yn gofyn am eich caniatâd i ni gysylltu â chi yn y dyfodol ynghylch digwyddiadau grwpiau ffocws. Os byddwch chi'n rhoi eich caniatâd, bydd hyn yn golygu y bydd angen i chi ddarparu'ch manylion cyswllt i ni.

Gall ymatebwyr i'r arolwg ar y strategaeth ddrafft gymryd rhan mewn raffl fawr, gyda'u manylion cyswllt yn cael eu defnyddio at ddibenion gweinyddu'r raffl. Efallai y byddwn hefyd yn cyhoeddi enw'r enillydd ar wefan y Cyngor, ond dim ond gyda'i ganiatâd.

### Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o erthygl 6 o'r Rheoliad, a amlinellir isod

(nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

6(1)(f) processing is necessary for the purposes of the legitimate interests pursued by the controller or by a third party, except where such interests are overridden by the interests or fundamental rights and freedoms of the data subject which require protection of personal data, in particular where the data subject is a child.

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer rhai dosbarthiadau o wybodaeth o'r enw 'data personol arbennig', e.e. data cydraddoldeb. Os bydd unrhyw wybodaeth yn dod o fewn y diffiniad o ddata personol arbennig, yna rhaid nodi amod ychwanegol o Erthygl 9 o'r Rheoliadau, fel yr amlinellir isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

8 (1) This condition is met if the processing—
(a) is of a specified category of personal data, and
(b) is necessary for the purposes of identifying or keeping under review the existence or absence of equality of opportunity or treatment between groups of people specified in relation to that category with a view to enabling such equality to be promoted or maintained, subject to exceptions.

Gall ymatebwyr i'r arolwg am y Strategaeth Tai Lleol ddrafft gymryd rhan mewn raffl fawr, a bydd eu manylion cyswllt yn cael eu defnyddio at ddibenion gweinyddu'r raffl. Efallai y byddwn hefyd yn cyhoeddi enw'r enillydd ar wefan y Cyngor, ond dim ond gyda'i ganiatâd. Amlinellir yr amod dilys o Erthygl 6 ar gyfer y gwaith prosesu hwn isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

1(a) the data subject has given consent to the processing of his or her personal data for one or more specific purposes

### Yr hawl i dynnu caniatâd yn ôl.

Mae gennych yr hawl i dynnu'ch caniatâd yn ôl o ran prosesu'r wybodaeth hon. I dynnu'ch caniatâd yn ôl, cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth y mae ei fanylion ar frig y ddogfen hon.

## Ffynhonnell a'r math o wybodaeth sy'n cael ei phrosesu

### Categorïau o ddata personol a geir

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cael y categorïau canlynol o ran eich data personol:

- Enw
- Manylion cyswllt, e.e. cyfeiriad e-bost/rhif ffôn
- Data cydraddoldeb, a
- Profiadau tai personol a sut y gallent fod wedi cael eu heffeithio gan nodweddau warchodedig (oedran, anabledd, rhywedd ac ati).

### Ffynhonnell y data personol

Gall y Cyngor ddefnyddio'r manylion personol a ddarparir gennych drwy gwblhau'r arolwg i'ch gwahodd i grŵp ffocws neu ddigwyddiad arall a drefnir gennym fel rhan o ddatblygiad y strategaeth.

Fel rhan o'r arolwg, bydd y Cyngor yn gofyn am eich caniatâd i ni gysylltu â chi yn y dyfodol ynghylch digwyddiadau grwpiau ffocws. Os byddwch chi'n rhoi eich caniatâd, bydd hyn yn golygu y bydd angen i chi ddarparu'ch manylion cyswllt i ni.

## Pwy fydd yn cael mynediad at eich gwybodaeth

### Manylion y Rheolydd Data a'r Swyddog Diogelu Data

Y Rheolydd Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Ms Joanne Jones
Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol/Swyddog Diogelu Data
E-bost: DiogeluData@caerffili.gov.uk
Ffôn: 01443 864322

### Manylion am brif ddefnyddwyr eich gwybodaeth

Prif ddefnyddiwr eich gwybodaeth fydd Cartrefi Caerffili.

Er y gellir cyhoeddi adroddiad cryno am y broses ymgynghori, ni fydd modd adnabod unigolion yn bersonol o'r adroddiad.

### Manylion am unrhyw rannu o'ch gwybodaeth o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Gellir rhannu copi o'r adroddiad cryno ag adrannau eraill y Cyngor lle bernir y gallai'r wybodaeth helpu gwella'r ddarpariaeth gwasanaeth. Ni ddarperir unrhyw wybodaeth bersonol.

### Manylion am unrhyw achos o rannu'ch gwybodaeth â sefydliadau eraill

Bydd copi o'r adroddiad cryno yn cael ei rannu ag Arc4, ymgynghorwyr sydd wedi'u comisiynu gan y Cyngor i helpu cynhyrchu'r strategaeth. Ni fydd Arc4 yn cael unrhyw wybodaeth bersonol.

### Ceisiadau am wybodaeth

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a deddfwriaeth Diogelu Data.

Os bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch yn gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn yn cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

## Pa mor hir y byddwn yn cadw eich gwybodaeth

### Manylion am y cyfnod cadw

Mae pa mor hir y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu drwy ofynion statudol neu arfer gorau.

Bydd yr wybodaeth bersonol yn cael ei chadw am uchafswm o 3 mis ar ôl i Strategaeth Tai Lleol 2021-26 gael ei chymeradwyo gan Gabinet y Cyngor. Gyda'ch caniatâd, efallai y bydd eich manylion cyswllt yn cael eu cadw'n hirach i roi gwybod i ymatebwyr am grwpiau ffocws yn y dyfodol.

## Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwyno)

**Eich hawliau o dan y Ddeddf Diogelu Data**

Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i destun y data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanynt):

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun – mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan: Ffurflen Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun (SAR)
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk

Er mwyn arfer eich hawliau, cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ffurflen hon.

**Y Weithdrefn Gwyno**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth, mae gennych chi'r hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth a fanylir ar frig y ddogfen hon gan amlinellu eich materion.

Os byddwch yn parhau'n anfodlon, mae gennych hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Am ragor o wybodaeth am y broses gwyno, dilynwch y ddolen hon.

www.caerffili.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints?lang=cy-gb

# Crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd

## Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth

Bydd yr wybodaeth a roddwch yn cael ei defnyddio gan y Cyngor fel rhan o waith datblygu'r Strategaeth Tai Lleol 2021-26. Defnyddir yr wybodaeth a ddarperir yn ystod y digwyddiadau ymgysylltu i gynhyrchu cyfres o adroddiadau cryno. Defnyddir yr adroddiadau cryno i nodi unrhyw faterion y mae angen eu hystyried ymhellach a llunio cyfeiriad strategol cyffredinol y strategaeth.

Ar ddiwedd yr arolwg o'r Strategaeth Tai Lleol ddrafft, bydd y Cyngor yn gofyn a ydych chi'n cytuno i ni gysylltu â chi yn y dyfodol ynghylch digwyddiadau grwpiau ffocws. Os felly, byddwn yn defnyddio'r manylion cyswllt rydych chi'n eu darparu i ni.

Gall ymatebwyr i'r arolwg ar y strategaeth ddrafft gymryd rhan mewn raffl fawr, gyda'u manylion cyswllt yn cael eu defnyddio at ddibenion gweinyddu'r raffl. Efallai y byddwn yn cyhoeddi enw'r enillydd ar ein gwefan, ond dim ond gyda'i ganiatâd y gall gael ei dynnu'n ôl ar unrhyw adeg drwy gysylltu â ni.

Bydd yr wybodaeth bersonol a ddarperir trwy gydol y broses ymgynghori yn cael ei chadw am uchafswm o 3 mis ar ôl i Strategaeth Tai Lleol 2021-26 gael ei chymeradwyo gan Gabinet y Cyngor. Gyda'ch caniatâd, efallai y bydd eich manylion cyswllt yn cael eu cadw'n hirach i roi gwybod i ymatebwyr am grwpiau ffocws yn y dyfodol.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn prosesu'ch gwybodaeth a'ch hawliau, cliciwch ar y ddolen ganlynol: https://www.caerphilly.gov.uk/My-Council/Strategies,-plans-and-policies/Housing/Local-Housing-Strategy?lang=cy-gb